




YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies

e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

www.ysgoldyffrynconwy.org



Annwyl Riant/Warcheidwad

Alergeddau Bwyd

Annwyl Riant/Warcheidwad

Byddwch eisoes yn ymwybodol bod alergeddau bwyd yn bryder cynyddol mewn sefydliadau addysgol ledled y DU ac Iwerddon. Gall unigolion sy'n cael eu heffeithio gan alergedd bwyd ddiodeff adwaith difrifol neu sy'n peryglu bywyd os ydynt yn bwyta, neu mewn rhai achosion, yn dod i gysylltiad yn unig â bwyd neu gynhwysyn y mae ganddynt alergedd iddo.

Mae iechyd a diogelwch pob plentyn a pherson ifanc dan ein gofal yn bwysig iawn i ni a gofynnwn i chi ein helpu i ddarparu amgylchedd addysgol diogel.

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi gwblhau'r Ffurflen Wybodaeth Alergedd Bwyd cyn gynted â phosibl. Bydd angen i chi ei dychwelyd i [Ysgol Dyffryn Conwy, Ffordd Nebo, Llanrwst neu cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk] o leiaf **3 wythnos cyn dechrau'r tymor newydd**.

Beth ddylwn i ei wneud os nad oes gan fy mhleintyn/person ifanc alergedd bwyd?

Gofynnwn i bob rhiant/gwarcheidwad gwblhau a dychwelyd y Ffurflen Wybodaeth Alergedd Bwyd hyd yn oed os nad oes gan eich plentyn/person ifanc alergedd.


Beth ddylwn i ei wneud os oes gan fy mhleintyn/person ifanc alergedd bwyd?

Os oes gan eich plentyn/person ifanc alergedd bwyd, bydd angen i chi roi asesiad meddygol ysgrifenedig o'u cyflwr gan feddyg neu ddietydd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eich plentyn/person ifanc yn derbyn diet sy'n addas ar gyfer eu halergedd bwyd ac nad yw'n cyfyngu'n ddianghenraid ar eu diet.

- *"Mae gen i alergedd i wyau"*
Gallai hyn fod yn alergedd i wyau amrwd, wyau wedi'u coginio neu fwydydd sy'n cynnwys wyau. Bydd llythyr gan feddyg/dietegydd yn helpu i esbonio'r alergedd bwyd;
- *"Mae gen i alergedd i gnau"*
Ceir gwahanol fathau o alergeddau i gnau felly mae'n bwysig i ddeall y math o gnau (er enghraifft cnau cyll, cnau Brasil, cnau almon, cnau pinwydd ayb) y mae gan eich plentyn alergedd penodol iddynt.

Byddwn yn cadw cofnod o Ffurflen Wybodaeth Alergedd Bwyd eich plentyn/person ifanc i'w defnyddio pe bai argyfwng meddygol yn digwydd. Byddwn yn rhannu manylion unrhyw asesiadau alergedd bwyd â Sodexo Limited sy'n darparu ein harlwygo.

Sefydlwyd Sodexo yn 1966 ac mae'n arweinydd byd-eang o ran darparu gwasanaethau arlwygo o safon uchel. Gan ddefnyddio eu profiad a thim o ddietygwyr uchel eu parch, mae Sodexo wedi darparu gweithdrefnau rheoli alergenau bwyd cadarn i reoli anghenion dietegol eich plentyn/person ifanc.



[Type text]

Os oes gan eich plentyn/person ifanc alergedd bwyd, ac os nad ydych wedi dychwelyd y Ffurflen Wybodaeth Alergedd Bwyd ynghyd ag asesiad meddyg/dietegydd lle bo angen, **bydd eich plentyn/person ifanc yn derbyn diet cyfyngedig y mae Sodexo, ein partner arlwyo, yn credu ei fod yn annhebygol o achosi adwaith alergaidd** h.y. taten bob blaen oni bai eich bod wedi nodi bod gan eich plentyn/person ifanc alergedd i datws. Pan fyddwch wedi gallu darparu asesiad meddyg/dietegydd o gyflwr eich plentyn/person ifanc, gallwn gynnig bwydlen ehangach iddynt sy'n briodol i'w hanghenion.

Diweddarau gwybodaeth

Os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i ni os bydd eich plentyn/person ifanc yn datblygu alergedd bwyd, neu os bydd unrhyw newidiadau i'w halergedd presennol. Cyn y gellir addasu eu diet, bydd angen i chi roi asesiad meddygol i ni o'u cyflwr gan feddyg neu ddietygydd.

Ynghlwm mae mwy o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Yn gywir

Elan Davies
Pennaeth



Cyngor Celfyddydau Cymu
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

